



**Adroddiad Adolygiad o
Gydraddoldeb
2020/21**

**(Y flwyddyn yn dod i ben Mawrth
2021)**

Adolygiad Blynyddol o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth 2020/21

1. Cyflwyniad

Dyma Adolygiad Blynyddol Dinas a Sir Abertawe o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth 2020-21. Dyma ein degfed adolygiad o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011. Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 newydd ym mis Ebrill 2020 a dyma'r flwyddyn gyntaf o adolygu'r cynllun hwn.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fersiwn Hawdd ei Darllen, fersiwn Darllenydd Sgrin, Adroddiad Ymgysylltu ac Adolygiad Ystadegol ar gael [yma](#)

Cynhaliwyd yr Adolygiad Blynyddol o gynnydd yn ystod Ebrill - Mai 2021 a gofynnwyd i bob adran ar draws y Cyngor ddarparu manylion y cynnydd y maent wedi'i wneud o ran cyflawni'r camau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Gofynnwyd i adrannau hefyd ddiffinio canlyniadau a fwriadwyd, mesurau llwyddiant, nodi camau gweithredu arfaethedig a chynlluniedig ar gyfer y tair blynedd nesaf; 2021-22, 2022-23 a 2023-24 ac i fapio camau mewn perthynas â sut maent yn cyd-fynd ag amcanion llesiant y Cyngor, blaenoriaethau strategaeth Trechu Tlodi'r Cyngor a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r wybodaeth hon yn darparu fframwaith a chynllun gweithredu i fonitro'r modd y cyflawnir ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a'n Hamcanion Cydraddoldeb. Gellir gweld yr holl wybodaeth yn Atodiad 1.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am:

- Y degfed adolygiad o gynnydd ar gyfer ein Hamcanion Cydraddoldeb, a blwyddyn gyntaf yr adolygiad ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24,
- adolygiad cryno o'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effaith Covid-19 ar Gydraddoldebau a phobl â nodweddion gwarchoddedig,
- ein gwaith Corfforaethol ar Gydraddoldebau gan gynnwys gwaith ar ein Hasesiad o Effaith Integredig (IIA), gweithredu'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Hawliau Dynol, gwybodaeth a data Cyflogaeth a Hyfforddiant a dilyniant i'n Panel Ymchwiliadau Craffu ar Gydraddoldebau,
- ein gwaith ymgynghori ac ymgysylltu mewn perthynas â Chydraddoldebau a gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig,

- cyfres o astudiaethau achos i dynnu sylw at ein gwaith ar Gydraddoldebau mewn perthynas â pholisi ac arfer,
- camau a gymerwyd gennym i sicrhau bod ein gwybodaeth yn hygyrch.

2. Pandemig Covid-19

Mae Pandemig Covid-19 wedi rhoi pwysau sylweddol a digynsail ar wasanaethau'r Cyngor, staff a'n dinasyddion. Ataliwyd nifer o wasanaethau nad ydynt yn hanfodol er mwyn adleoli adnoddau ac ailffocysu gwasanaethau i'r meysydd lle'r oedd eu hangen fwyaf. Mae natur ddigynsail y pandemig Covid-19 wedi cwestiynu rhagdybiaethau sylfaenol ynghylch rôl a swyddogaethau Awdurdodau Lleol a sut maent yn darparu gwasanaethau. Yn ystod ton 1af y Pandemig symudodd mwy na 4,500 o staff y Cyngor i weithio gartref gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Cafodd mwy na 520 aelod o staff eu had-leoli / eu hailosod i wasanaethau hanfodol/cymorth. Canolbwyntiodd y gwaith ar ail-ddylunio gwasanaethau'r Cyngor yn gyflym, cefnogi'r GIG, ehangu gofal cymdeithasol, cefnogi gweithwyr allweddol a phobl agored i niwed, darparu cymorth ychwanegol i bobl ddigartref, datblygu'r gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu (TTP) a chwrdd â chost Covid-19.

Er bod y pandemig Covid-19 wedi achosi heriau digynsail i lawer o bobl, mae effaith y pandemig Covid-19 wedi arwain at effeithiau anghymesur i rai pobl â nodweddion gwarchoddedig. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i effaith y pandemig - Sut mae Coronafeirws wedi effeithio ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020) - fod pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig, pobl sy'n byw mewn tlodi, pobl hŷn, pobl ifanc a menywod wedi profi effeithiau mwyaf arwyddocaol ac anghymesur y pandemig. At hynny, mae'r adroddiad yn awgrymu bod effaith y pandemig wedi sefydlu rhai anghydraddoldebau presennol ac ehangu rhai eraill.

Er bod ein gallu i gasglu gwybodaeth a data ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i rwystro i raddau gan y pandemig ac ail-ffocysu gwasanaethau, rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb. Yn ogystal, mae rhai o'n gweithredoedd heb eu cynllunio mewn perthynas ag ymateb i'r pandemig Covid-19 wedi darparu cyfleoedd amgen i weithio ar faterion Cydraddoldeb a'u hyrwyddo. At hynny, mae ein hymrwymiad i ymgorffori materion Cydraddoldeb yn ein busnes craidd wedi cael ei wreiddio yn null adferiad y Cyngor "Abertawe - Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd, y Strategaeth Drawsnewid a'r Fframwaith Rhaglenni 2022-26" mewn ymgais i "lefelu i fyny" wrth inni symud trwy'r broses adfer o'r pandemig a sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

3. Pandemig Covid-19 a Chydraddoldebau: Tystiolaeth sy'n Dod i'r Amlwg

Ni fydd maint lawn y pandemig Covid-19 a'i effeithiau a'i oblygiadau ar yr economi, cymunedau lleol, iechyd ac agweddau eraill ar fywydau pobl, yn hysbys am beth amser. Fodd bynnag, mae yna ystod o dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod effeithiau'r pandemig wedi bod yn anghymesur ac yn anghyfartal i rai pobl â nodweddion gwarchoddedig.

3.1 Anabledd

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwiliad i brofiad pobl anabl o bandemig Covid-19 - Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 (2020). Dangosodd canfyddiad amlwg o'r adolygiad fod 68% o'r holl farwolaethau o'r pandemig Covid-19 ymhlith pobl anabl yng Nghymru. Ar ben hynny, daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oedd "unrhyw beth yn anochel ynglŷn â'r ystadegyn hwn" a bod "ffactorau cymdeithasol gan gynnwys gwahaniaethu, tai gwael, tlodi, statws cyflogaeth, sefydliadoli, diffyg PPE, gwasanaethau gwael a darniog, gwybodaeth gyhoeddus anhygyrch a dryslyd ac amgylchiadau personol, wedi cyfrannu'n sylweddol at y ffigur hwn". Yn gyffredinol, daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod newidiadau mewn deddfwriaeth a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar Hawliau Dynol pobl anabl ac anwybyddwyd y model cymdeithasol o anabledd i raddau helaeth. Tynnodd yr ymchwiliad ar fwy na 300 darn o dystiolaeth a chanfu, er gwaethaf y ddeddfwriaeth a'r polisi a roddwyd ar waith i amddiffyn pobl anabl, nad oedd rhai pobl anabl yn gallu cael mynediad at yr holl gymorth meddygol, gwasanaethau cyhoeddus a chymorth cymdeithasol yr oedd eu hangen arnynt. Dirywiodd iechyd corfforol a meddyliol llawer o bobl anabl ac roedd llawer o bobl anabl yn teimlo'n ofnus, yn ddryslyd, yn ynysig ac ar eu pennau eu hunain.

3.2 BAME

Mae dadansoddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol SYG yn dangos bod y risg o farwolaethau sy'n cynnwys COVID-19 ymhlith rhai grwpiau ethnig, yng Nghymru a Lloegr, yn sylweddol uwch na risg pobl ag ethnigrwydd Gwyn. Roedd data ar gyfer marwolaethau yng Nghymru yn ymwneud â COVID-19 rhwng Mawrth a Mehefin 2020, yn cyfrif am gyfran uwch o'r holl farwolaethau yng ngrwpiau BAME (35%) o gymharu â'r rhai yn y grŵp Gwyn (23%). Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn cael ei egluro'n rhannol gan ffactorau economaidd-gymdeithasol, lleoliad daearyddol ac amgylchiadau eraill, ond bod rhan o'r gwahaniaeth yn parhau heb ei esbonio.

Comisiynodd y Prif Weinidog grŵp cyngori BAME Covid-19 dan gadeiryddiaeth yr Athro Emmanuel Ogbonna yng ngoleuni'r niferoedd anghymesur o bobl BAME yng Nghymru sy'n dal ac yn marw o Covid-19. Canfu'r ymchwiliad fod ansawdd gwael data ethnigrwydd wedi arwain at benderfyniadau cynllunio iechyd gwael a bod pobl o gymunedau BAME yn wynebu risg uwch o ddal a marw o'r afiechyd. Canfu'r ymchwiliad hefyd fod

pandemig Covid-19 yn gwaethygu profiadau o hiliaeth, roedd cyfathrebu gwybodaeth iechyd â rhai pobl BAME yn aneffeithiol ac roedd llawer o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn anaddas yn ddiwylliannol. Awgrymodd yr adroddiad hefyd fod incwm isel ac ansicrwydd cyflogaeth, tai gorlawn ac amgylchedd gwael yn ogystal â phroblemau a achosir gan statws ymfudo a thrais yn y cartref hefyd yn cyfrannu at hiliaeth ac anfantais strwythurol a systemig.

3.3 Menywod

Canfu ymchwiliad a wnaed gan Chwarae Teg - COVID-19, Menywod, Gwaith a Chymru (2021) - er nad oedd profiad benywaidd unigol yn ystod y pandemig - cafodd llawer o fenywod eu taro'n anghymesur gan y pandemig o ran eu statws cyflogaeth a'u cyfrifoldebau gofalu am blant ac oedolion. Dangosodd yr ymchwiliad fod menywod yn fwy tebygol o fod yn weithwyr allweddol, yn gwneud gwaith â chyflog isel, yn cael eu cyflogi ar gontractau ansicr, neu mewn sectorau o'r economi oedd wedi cau. Datgelodd yr ymchwiliad hefyd fod menywod ar gyfartaledd yn treulio dwywaith yr amser ar addysgu gartref na dynion a'u bod hefyd yn debycach o ysgwyddo'r baich ychwanegol o gefnogi pobl a oedd yn "gwarchod" fel rhieni hŷn.

3.4 Trais yn y Cartref

Canfu ymchwiliad a gynhaliwyd gan Gymorth i Fenywod Cymru (2020) fod cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth ar gyfer trais yn y cartref. O'r 16 sefydliad cymorth a arolygwyd gan Gymorth i Fenywod Cymru, dywedodd 94% y bu cynnydd yn y galw am un neu fwy o wasanaethau. Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau allan o linell gymorth VAWDASV Cymru, Byw Heb Ofn, 137% a bu cynnydd o 150% mewn galwadau argyfwng lle roedd angen gwasanaethau brys er diogelwch y goroeswr a chynnydd o 175% mewn atgyfeiriadau diogelu a wnaed gan y Llinell gymorth oherwydd risgiau i oedolion neu blant agored i niwed. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, cynyddodd galwadau i'r llinell gymorth genedlaethol 49%, ac roedd amseroedd galwadau wedi treblu gyda'r rhai oedd yn cysylltu â'r llinell gymorth yn aml yn adrodd am gamdriniaeth amlach gyda chyfnodau cynnydd byrrach. Amlygodd yr ymchwiliad hefyd rai o'r heriau allweddol a wynebodd darparwyr mewn perthynas â pharhad gwasanaethau allweddol fel llochesau, anawsterau wrth gael gafael ar offer personol amddiffynnol (PPE), costau gweithredu ychwanegol heb eu cynllunio, colli cyllid a materion staffio.

3.5 Plant a Phobl Ifanc

Cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru ymchwiliad i effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc. Er bod eu hadroddiad terfynol (Mawrth 2021) wedi dod i'r casgliad bod plant a phobl ifanc wedi bod yn llai tueddol o gael Covid-19 nag oedolion, daeth yr adroddiad i'r casgliad "nid oes fawr o amheuaeth bod effeithiau ehangach y pandemig a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli, wedi effeithio yn sylweddol ar eu bywydau a'u hawliau". At hynny, amlygodd yr ymchwiliad nad oedd effaith y pandemig wedi effeithio ar bob

plentyn a pherson ifanc yn gyfartal ag effeithiau gwahanol yn cael eu profi yn ôl grŵp oedran, cefndir economaidd a statws iechyd.

Canfu'r ymchwiliad hefyd y bu aflonyddwch sylweddol ar addysg ac amrywioldeb o ran mynediad at ddysgu o bell ac ansawdd dysgu o bell. Canfu'r ymchwiliad hefyd fod pryder cynyddol ynghylch effaith y pandemig parhaus ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Canfu arolwg o bron i 25,000 o blant a phobl ifanc a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Plant - Coronafeirws a Fi (2021) - fod bron i hanner yr holl gyfranogwyr yn poeni am Covid-19 i raddau ar y diwrnod y gwnaethant lenwi'r arolwg. Dywedodd bron i draean o blant 12-18 oed eu bod yn "poeni y rhan fwyaf o'r amser".

3.6 Pobl hŷn

Cynhaliodd Age Cymru, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA), Senedd Pobl Hŷn Cymru, Cymru Egniïol, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, a Fforwm Pensiynwyr Cymru beth ymchwil i brofiadau Pobl Hŷn yn ystod cyfnod clo cyntaf Covid-19. Canfu'r ymchwil - Profiadau pobl 50 oed neu drosodd yng Nghymru yn ystod cyfnod clo cyntaf Covid-19 a'r ffordd i adferiad (2020) - fod mwy na 70% o'r cyfranogwyr wedi cael profiad negyddol o gael mynediad at ofal iechyd yn ystod y cyfnod clo. Datgelodd yr ymchwil fod un rhan o bump o Bobl Hŷn wedi canslo apwyntiad gofal iechyd a dim ond 17% oedd â phrofiad cadarnhaol o gael gafael ar ofal iechyd yn ystod y cyfnod clo. Datgelodd yr ymchwil hefyd fod dros draean o Bobl Hŷn wedi dweud eu bod wedi teimlo'n unig yn ystod y cyfnod clo a gynyddodd i dros 50% ar gyfer y rhai a oedd yn byw ar eu pennau eu hunain, neu a oedd ag anabledd. Dywedodd dros draean o Bobl Hŷn eu bod wedi cael anawsterau â'u hiechyd corfforol yn ystod y cyfnod clo a nododd 44% broblemau â'u lles meddyliol. Canfu'r ymchwil hefyd fod rhai Pobl Hŷn wedi nodi problemau gyda chyrchu bwyd, casglu presgripsiynau, arian a gwasanaethau cymorth eraill yn ystod y cyfnod clo.

3.7 Tlodi

Canfu ymchwil a wnaed gan Sefydliad Bevan (2021) – 'Profiadau gwahanol o Dlodi yn ystod Gaeaf 2020' - fod pandemig Covid-19 yn cael effaith sylweddol ar y rhai oedd eisoes yn profi tlodi a'i fod yn cynyddu'r risg y bydd pobl yn mynd i sefyllfa o dlodi. Canfu'r adroddiad fod bron i 1 o bob 4 cartref wedi gweld eu hincwm yn gostwng ac roedd ychydig dros 1 o bob 3 chartref wedi gweld eu costau byw yn cynyddu. Dangosodd yr ymchwil hefyd fod llawer o aelwydydd wedi profi cwmp mewn safonau byw ac wedi gorfod torri nôl ar eu gwariant. Nododd cyfran gymharol fach ond arwyddocaol o aelwydydd eu bod wedi torri i lawr ar hanfodion fel bwyd (15%) a chyfleustodau fel gwres (14%). Amlygodd yr adroddiad hefyd lefelau cynyddol o ddyled bersonol a benthyca gydag 1 o bob 10 cartref yn nodi eu bod wedi mynd ar ei hôl hi gydag un neu fwy o filiau ers y pandemig a 15% o aelwydydd yn nodi eu bod wedi benthyca arian yn dilyn dechrau'r pandemig Covid-19. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd effeithiau economaidd y pandemig yn gyfartal a bod rhai grwpiau o bobl fel pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd tymor hir, pobl sy'n rhentu eu cartrefi, rhieni unigol a rhieni sengl i gyd yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

3.8 Data a Gwybodaeth Leol

Rydym yn parhau i adeiladu ar ein gwybodaeth am bobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n byw yn Abertawe ac wedi cynnal Adolygiad Ystadegau Cydraddoldeb manwl ym mis Ionawr 2020. Eleni rydym wedi adolygu a datblygu gwybodaeth ddemograffig sydd wedi'i chynnwys ar dudalennau gwe 'Ystadegau' y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys data cymdeithasol a demograffig lleol o'r Cyfrifiad a ffynonellau swyddogol eraill a chrynodeb o ymchwil diweddar y SYG sy'n cynnwys amcangyfrifon rhyng-gyfrifiadol o boblogaeth Abertawe yn ôl ethnigrwydd, gwlad enedigol a chenedligrwydd. Disgwylir i ganlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2021 gael eu cyhoeddi gan SYG cyn Mawrth 2022, a bydd hyn yn darparu diweddariad cynhwysfawr i'n sylfaen dystiolaeth ynghylch nodweddion gwarchoddedig.

Rydym hefyd wedi adolygu ein proffiliau ardaloedd lleol, sy'n dwyn ynghyd ystod o wybodaeth ystadegol a gwybodaeth arall am ardaloedd lleol yn Abertawe, gan gynnwys data sy'n gysylltiedig ag agweddau ar gydraddoldeb (lle mae ar gael). Ar hyn o bryd mae proffiliau ar gael ar gyfer y sir, y 36 Ward, yr Ardaloedd Etholaethol lleol, Ardaloedd Cymunedol (fel y'u diffinnir yn Asesiad Lles Lleol 2017, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) ac Ardaloedd Cyflenwi (ardaloedd Cymunedau yn gyntaf gynt). Rydym hefyd yn y broses o ddiweddarau ein sylfaen dystiolaeth trwy adolygu'r holl ffynonellau data perthnasol ac ystadegau allweddol ar gyfer Abertawe fel rhan o'n hasesiad Lles ar gyfer ein cynllun Lles Lleol.

3.9 Casgliadau

Er na fydd effeithiau llawn y pandemig Covid-19 yn hysbys am gryn amser, mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod effeithiau'r pandemig wedi bod yn anghymesur i rai grwpiau o bobl agored i niwed gyda nodweddion gwarchoddedig. Nid yw'n glir chwaith am effaith y pandemig ar *bob* grŵp o bobl â nodweddion gwarchoddedig ac effaith croestoriadoldeb i bobl sy'n rhannu mwy nag un nodwedd warchoddedig. Wrth i ni adfer o bandemig Covid-19, byddwn yn ymdrechu i ddefnyddio ymchwil a thystiolaeth genedlaethol - yn ychwanegol at ein gwybodaeth a'n data lleol, i sicrhau ein bod yn sicrhau bod ein holl benderfyniadau, cynlluniau a strategaethau allweddol yn ymgorffori anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ar ein ffordd i adferiad.

4. Ein gwaith Corfforaethol ar Gydraddoldebau

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu rhai o'r datblygiadau allweddol yr ydym wedi'u gwneud mewn perthynas â'n gwaith Corfforaethol ar Gydraddoldebau.

4.1 Asesiadau ar Effaith Integredig (IIA)

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth cydraddoldeb i lywio ein proses gwneud penderfyniadau a datblygu polisi allweddol. Eleni gwnaethom ddiwygio ein proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) a datblygu proses Asesiad ar Effaith Integredig (IIA). Pwrpas datblygu proses Asesiad ar Effaith Integredig (IIA) oedd dod ag ystod o ddyletswyddau asesu effaith ynghyd mewn un fframwaith cydlynol, er mwyn lleihau dyblygu a chymhlethdod. Dyluniwyd ein Hasesiad ar Effaith Integredig i fodloni gofynion deddfwriaeth Gymreig bresennol a newydd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd (2021). Mae ein proses IIA hefyd yn ystyried materion a blaenoriaethau allweddol eraill, megis tlodi ac allgau cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, gofalgwyr a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'r Gymraeg.

Mae ein proses IIA wedi'i datblygu'n systematig i archwilio a yw unrhyw swyddogaethau, gwasanaethau, polisïau, gweithdrefnau, strategaethau, cynlluniau neu brosiectau newydd neu bresennol yn effeithio ar unrhyw berson neu grŵp o bobl yn anghymesur. Dyluniwyd y broses i helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gydbwysu anghenion y tymor hir yn erbyn pwysau uniongyrchol y tymor byr a rhoi gwell gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am effaith debygol eu penderfyniad ar grwpiau agored i niwed. Pwrpas ein proses IIA yw ystyried a yw cynnig yn cydbwysu anghenion uniongyrchol â llesiant cenedlaethau'r dyfodol, dadansoddi polisïau ac arferion i benderfynu a ydynt yn debygol o wahaniaethu neu roi pobl dan anfantais ac asesu a fydd cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol.

Mae IIAs yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu a'n nod yw ymgymryd â nhw mor gynnar â phosibl yn ystod unrhyw fenter - yn ddelfrydol ar y cychwyn. Mae ein proses IIA yn cynnwys ffurflen sgrinio gychwynnol a chanllawiau i staff eu defnyddio i asesu'r effaith ar gydraddoldebau ac adroddiad llawn a chanllawiau i staff eu defnyddio pan fydd angen. Mae'r Tîm Mynediad at Wasanaethau yn cydlynu cymorth IIA pwrpasol trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor a sicrhau ansawdd pob IIA a gwblhawyd.

4.2 Gweithredu'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae ein Tîm Mynediad at Wasanaethau penodedig wedi bod yn arwain ar weithredu'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd (2021). Mae nifer o sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar y ddyletswydd newydd eisoes wedi'u cynnal gyda Thîm Rheoli Corfforaethol, Tîm Arweinyddiaeth, Cabinet, Cyngorwyr a staff y Cyngor o Fforwm Tlodi trawsadrannol. Diweddarwyd modiwlau e-ddysgu a chrëwyd modiwl newydd ar Gydraddoldebau ac IIAs ar

gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rheolwyr. Mae'r modiwlau hyfforddi hyn yn orfodol. Mae gwaith hefyd wedi'i gwblhau ar ddatblygu a chymhwysu proses pum cam ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a rhestr wirio ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rheolwyr mewn perthynas â "phenderfyniadau strategol" a sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd mewn perthynas ag adolygu'r defnydd o'r broses IIA gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, monitro'r ddyletswydd newydd, datblygu hyfforddiant mwy arbenigol ar y ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a hyrwyddo'r ddyletswydd newydd trwy bartneriaethau lleol fel Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Abertawe (BGC). Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ymgorffori'r ddyletswydd newydd ym mhob dogfen strategol newydd a'i hymgorffori yn ein dull o fodloni gofynion newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021).

4.3 Hawliau Dynol

Cynhaliodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adolygiad i sut mae Covid-19 wedi effeithio ar Gydraddoldebau a Hawliau Dynol. Canfu'r adolygiad - Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol (2020) - fod effaith y pandemig yn anghyfartal, gan sefydlu anghydraddoldebau presennol ac ehangu rhai eraill. Argymhellodd yr adolygiad y dylid integreiddio Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ymateb polisi Cymru i'r pandemig.

Ym mis Mehefin 2019 cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (PSB) Ddatganiad o Fwriad i weithio tuag at ddod yn Ddinas Hawliau Dynol. Er bod cynnydd ar Abertawe yn dod yn Ddinas Hawliau Dynol wedi'i ohirio dros dro oherwydd y pandemig, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi ail-gadarnhau yn ddiweddar ei ymrwymiad i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol. Mae holl aelodau craidd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi cytuno i arwyddo datganiad o fwriad i weithio tuag at ddod yn Ddinas Hawliau Dynol, wedi cytuno i ddatblygu corff i oruchwylio'r gwaith ac ymrwymo adnodd i arwain ar ddatblygu Dinas Hawliau Dynol ar gyfer eu sefydliad a goruchwylio datblygiad dull Dinas Hawliau Dynol trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi ariannu swydd bwrpasol i gefnogi cydgysylltu gweithgareddau i gyflawni Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a dod yn Ddinas Hawliau Dynol.

4.4 Gwybodaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant

Yn ein rôl fel cyflogwr mawr yn yr ardal leol, rydym yn parhau i gefnogi a hyrwyddo Cydraddoldebau ar draws ein gweithlu trwy adolygu a datblygu polisïau newydd ar gyfer staff a thrwy wella'r data a'r wybodaeth sydd gennym am staff, gan anelu at sicrhau y gallwn fonitro'n effeithiol effaith polisïau ar staff.

Yn unol â'n polisi Recriwtio a Dethol, rydym yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Chwarae Teg i ymgorffori arferion gwaith cynhwysol a chefnogi recriwtio, cadw a chynnydd menywod sy'n gweithio. Rydym wedi sicrhau

cytundeb gyda Chwarae Teg i gefnogi ymhellach ein hadolygiad parhaus o'n dull Recriwtio a Dethol. Oherwydd y pandemig Covid-19 mae hynny wedi'i ohirio gyda'r bwriad i'w gynnal yn ystod hydref 2021.

Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Prosiect i ystyried ffyrdd o ddenu ymgeiswyr yn well i rolau o bob cymuned yn Abertawe ac i helpu i gefnogi "Cynnig Gwerth Cyflogeion" y Cyngor. Mae'r grŵp wedi gwella'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hysbysebu a hyrwyddo swyddi a gyrfaoedd yn y Cyngor ac wedi gwneud gwelliannau i hygyrchedd y broses ymgeisio am swydd. Mae tîm Gweithlu'r Ganolfan Wasanaeth hefyd wedi datblygu datrysiad i-reciwtio sydd wedi ymgorffori monitro data cydraddoldeb ar ddechrau pob cais am swydd, gan annog pob ymgeisydd i gwblhau'r adran hon, cyn cwblhau eu cais am swydd. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo mewn perthynas â symleiddio ein dull o reciwtio ac rydym yn bwriadu gwella cysylltiadau â chynrychiolwyr o gymunedau BAME ac anabl, gan anelu at nodi'r ffyrdd y gallwn estyn allan a hyrwyddo swyddi a gyrfaoedd yn y Cyngor.

O ran hyfforddiant rydym yn adolygu ein holl gyfleoedd hyfforddi i sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn monitro'r cwblhau'r hyfforddiant cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi cyhoeddi nodiadau atgoffa i reolwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol bod hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol i'r holl staff a bod cwblhau hyfforddiant gorfodol 100% yn amcan i'r Cyngor. Mae gwaith ar y gweill mewn perthynas â hyfforddiant penodol i gefnogi gweithredu'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Yn ystod pandemig Covid-19 rydym wedi rhoi ystod o fesurau ar waith i gefnogi staff ac wedi cynnig cefnogaeth benodol i weithwyr BAME trwy gysylltu â nhw'n gyfrinachol yn uniongyrchol, gan gynnig cefnogaeth a chynghor. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Undebau Llafur i ddatblygu asesiad risg penodol ar gyfer gweithwyr BAME sydd wedi'i rannu ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru fel enghraifft o arfer da.

Rydym yn parhau i adrodd ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau ac yn cynllunio i ddadansoddi bylchau cyflog eraill fel anabledd a BAME, yn ogystal â rhyw, yn y dyfodol.

Gweler Atodiad 2 am ddadansoddiad o'n gweithlu yn ôl gwybodaeth nodweddion gwarchoddedig. Yn ogystal, mae ein hadroddiad bwch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i gyhoeddi. Mae ein hadroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gael [yma](#)

4.5 Gwybodaeth Hygyrch

Eleni rydym wedi parhau i ddatblygu a gwella gwefan y Cyngor. Mae'r cynnwys wedi'i drosglwyddo i'r wefan newydd a'i ail-eirio gan ddefnyddio egwyddorion Saesneg / Cymraeg clir. Mae'r defnydd o PDF wedi'i leihau lle bo hynny'n bosibl trwy dynnu gwybodaeth bwysig allan o PDFs a'i hychwanegu at dudalennau gwe, i'w gwneud yn hygyrch ac yn haws dod o hyd iddi wrth chwilio. Mae elfennau dylunio ac arddull yn cael eu hychwanegu gan ystyried hygyrchedd a rhwyddineb eu defnyddio. Gweithiodd y Rheolwr

Gwe gyda chynrychiolwyr o'r grŵp Cyswllt Anabledd ym mis Rhagfyr a dechrau 2020 i gael cyngor ac arweiniad er mwyn gwella hygyrchedd gwefan y Cyngor. Eleni, symudwyd y cynnwys ar Theatr y Grand Abertawe oddi ar safle'r Cyngor ac adeiladwyd gwefan annibynnol i wella hygyrchedd a gwerthiant tocynnau unwaith y codwyd cyfyngiadau COVID-19. Rydym yn parhau i hyrwyddo a defnyddio'r Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG) 2.1 sy'n esbonio sut i wneud cynnwys gwe yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau, ac yn hawdd ei ddefnyddio i bawb.

Rydym wedi parhau i ddarparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â dehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth ffôn ac wyneb yn wyneb trwy ein haelodaeth o Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol trwy ein huned gyfieithu.

O ganlyniad i'n haelodaeth o bartneriaeth WITS, mae gennym ddull cydgysylltiedig o ymdrin â dehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth ffôn ac wyneb yn wyneb. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol trwy ein huned gyfieithu. Y pum iaith fwyaf poblogaidd y gofynnwyd amdanynt yn 2020 - 2021 oedd: Arabeg, Pwyleg, Cwrdeg (Sorani), Bengali, Rwmaneg.

Mae Cyngor Abertawe yn parhau i fod yn ymrwymedig i Safonau'r Gymraeg. Mae ein Hadroddiad Safonau'r Iaith Gymraeg 2020-21 yn amlinellu sut rydym wedi cyrraedd y safonau hyn ac mae'n cynnwys enghreifftiau ac uchafbwyntiau prosiectau a gweithgareddau newydd. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwaith neu gamau gweithredu o ganlyniad i unrhyw adborth, ymchwiliadau, neu waith monitro gan y Comisiynydd, neu o ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Mae'r adroddiad ar gael [yma](#)

4.6 Cam olaf y Panel Ymchwiliadau Craffu ar Gydraddoldebau

Cynhaliwyd cam olaf y Panel Ymchwiliadau Craffu ar Gydraddoldebau ym mis Ionawr 2021. Pwrpas cam olaf y broses oedd asesu effaith y gwaith mewn perthynas â gweithredu argymhellion yr ymchwiliad. Wrth ymateb i'r ymchwiliad, lluniwyd cynllun gweithredu yn dangos pa gamau fyddai'n cael eu cymryd i weithredu'r holl argymhellion craffu y cytunwyd arnynt gan y Cabinet.

Gwnaed cynnydd da ar y cyfan mewn perthynas â gweithredu rhai o argymhellion yr ymchwiliad. Mae enghreifftiau o'r cynnydd a wnaed yn cynnwys;

- **Bwrdd Cydraddoldeb Strategol Lefel Uchel.** Rydym wedi sefydlu grŵp Cydraddoldeb Strategol traws-Gyngor Lefel Uchel ac wedi sicrhau adnodd i helpu i gydlynu a chyflawni cynllun gweithredu'r bwrdd. Rydym wedi penodi Cydlynnydd Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol i gyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24, gan weithio gydag adrannau ar draws y Cyngor, yn ogystal â chefnogi'r Bwrdd Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol. Ffocws y swydd hon

yw helpu i ymgorffori cydraddoldebau ar draws y sefydliad trwy gefnogi'r Bwrdd i alluogi darparu gwasanaethau hygrych o ansawdd da i'r holl breswylwyr a chyfrannu at y nod o Abertawe yn dod yn Ddinas Hawliau Dynol.

- **Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol a Strategaeth Cydgynhyrchu ar gyfer Gofal Cymdeithasol.** Mae ein Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol a'n strategaeth Cydgynhyrchu ar gyfer Gofal Cymdeithasol wedi'u cyd-gynhyrchu. Mae gofalwyr wedi chwarae rhan lawn yn y Grŵp Datblygu Strategaeth Rhanbarthol a'n Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol. Mae'r Strategaeth Cyd-gynhyrchu ar gyfer Gofal Cymdeithasol hefyd wedi'i chyd-gynhyrchu gyda llawer o ofalwyr sy'n rhan o'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu. Er bod amseru datblygiad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 yn golygu nad oedd dull cwbl gydgyngrychiol o'i ddatblygu yn bosibl, cynhaliwyd ymgynghoriad sylweddol cyn ac ar ôl datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb newydd, a oedd yn cynnwys ymgynghori wyneb yn wyneb yn ogystal ag arolygon; defnyddiwyd gwahanol ieithoedd a fformatau hefyd lle bo hynny'n bosibl i helpu i gynyddu cyfranogiad i'r eithaf.

Er bod ein gwaith ar ddull corfforaethol o Gyd-gynhyrchu wedi'i atal dros dro o ganlyniad i'r pandemig COVID ac ail-flaenoriaethu adnoddau, mae gwaith bellach ar y gweill i weithredu ein dull Cyd-gynhyrchu Corfforaethol ar draws y Cyngor. Mae aelodau o Bwyllgor Datblygiad Polisi Adferiad a Chenedlaethau'r Dyfodol y Cyngor (y Datblygiad Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol gynt) wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad ein Fframwaith Cyd-gynhyrchu Corfforaethol Strategol ac yn parhau i fonitro a gwneud argymhellion polisi mewn perthynas â chydgyngryrchu a Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ddrafft ddiwygiedig y Cyngor.

- **Polisiau a gweithdrefnau recriwtio.** Rydym wedi cynnal adolygiad o nifer o bolisiau staff yng ngoleuni'r pandemig Covid-19, gan gynnwys adolygiad o'n polisi Recriwtio a Dethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas ag adeiladu ar yr argymhellion a wnaed gan Chwarae Teg, a sefydlwyd Grŵp Prosiect mewnol i nodi gwelliannau i'r broses a datblygiadau TGCh. Bydd y camau nesaf yn cynnwys trafodaeth bellach gyda'r grŵp cydraddoldeb staff mewnol ynghylch datblygu cysylltiadau â chynrychiolwyr o gymunedau BAME a phobl anabl i ofyn am eu barn, cyn ymgysylltu'n ehangach â'r polisi i sicrhau ei fod yn addas at y diben.
- **Gwefan y cyngor a hygrychedd gwybodaeth.** Cyfarfu Rheolwr y We â'r Grŵp Cyswllt Anabledd ym mis Ionawr 2020 i drafod gwefan newydd y Cyngor a chyfleoedd cyd-gynhyrchu. Roedd hwn yn gyfarfod cynhyrchiol iawn, ond yn anffodus yna cafodd llwyth gwaith COVID-19 effaith ar amserlenni Tîm y We o amgylch y wefan newydd a chwtogi ar gyfarfodydd pellach. Fodd bynnag, bydd cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Anabledd yn ailddechrau ar-lein eleni a bydd y Rheolwr Gwe yn mynychu er mwyn symud ymlaen â chyd-gynhyrchu'r wefan.

Cynhyrchwyd mwy o ganllawiau ar Staffnet a diweddarwyd y cynnwys presennol felly mae'n addas i'r holl ddefnyddwyr. Hyrwyddwyd cyfres o erthyglau newyddion ym mis Ionawr 2021 i godi ymwybyddiaeth o hygyrchedd ar draws y Cyngor, nid yn gyfyngedig i'r cyfranwyr gwe yn unig. Mae profion hygyrchedd wedi'u cynnal ar amrywiol apiau newydd yn ystod Tachwedd - Ionawr 2020, gan gynnwys swyddogaeth talu newydd Civica. Bydd hyn yn darparu cyfleuster talu ymatebol symudol a fydd yn mynd ar-lein yn y dyfodol agos.

Gwnaed peth cynnydd hefyd o ran gweithredu rhai o'r argymhellion eraill o'r Ymchwiliad Craffu i Gydraddoldebau, er eu bod yn fwy cyfyngedig o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac ailffocysu ac ail-flaenoriaethu adnoddau. Er enghraifft, cynhaliodd y tîm Arweinyddiaeth drafodaeth am y Fforymau Cydraddoldeb ac fe'u hanogwyd i ymgysylltu â'r Fforymau yn fwy yn y dyfodol. Cynhyrchwyd rhestr gychwynnol o feysydd arfaethedig a fyddai'n destun ymgysylltu â'r Fforwm, ond mae pandemig Covid-19 yn golygu bod angen adolygu'r rhestr hon bellach. Mae Covid-19 wedi gosod her sylweddol wrth barhad ein Fforymau Cydraddoldeb, fodd bynnag rydym wedi addasu ac mae ein fforymau wedi dechrau cyfarfod eto. Amlygwyd sicrhau bod gennym fecanweithiau ymgysylltu da ar waith ar gyfer grwpiau blaenoriaeth fel blaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Cydraddoldeb Strategol a Chenedlaethau'r Dyfodol newydd ac wrth symud ymlaen gallwn fynd i'r afael â'r weithred hon gyda chefnogaeth y Bwrdd.

Mae pandemig Covid-19 wedi trawsnewid yr ystod o weithgaredd a wneir gan adrannau a'r tîm Cyfathrebu i sicrhau bod ymateb y Cyngor i'r pandemig yn cael ei hyrwyddo'n briodol i staff ac i'r cyhoedd yn ehangach. Ni ellid coffáu llawer o weithgareddau a gynlluniwyd sy'n dathlu amrywiaeth Abertawe a dim goddefgarwch o ran gwahaniaethu fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, gwnaethom barhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau ar-lein fel Diwrnod Cofio'r Holocaust, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Rhuban Gwyn, Gŵyl y Gwneuthurwyr Newid ac Wythnos Rhyng-ffydd. Fe wnaethom hefyd ddarparu cefnogaeth i weithgaredd parhaus gan y Cyngor i gefnogi'r rhai yr oedd Cam-drin yn y Cartref yn effeithio arnynt yn ystod y pandemig. Rydym hefyd wedi cefnogi llinell gymorth newydd a sefydlwyd i helpu BAME yn ystod y pandemig. Cyflwynwyd y gwaith gan EYST, Women Connect First, Sefydliad Henna, ProMo Cymru a TUC Cymru a'i nod oedd cynnig man galw cyntaf i unigolion o gefndiroedd BAME. Roedd y llinell gymorth amlieithog yn darparu cefnogaeth gan staff a allai siarad 11 iaith a threfnu cyfieithu ar y pryd i ieithoedd eraill yn ôl yr angen

Mae ein gweithgarwch cyfathrebu hefyd wedi canolbwyntio ar dynnu sylw staff newydd at wasanaethau'r Cyngor sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth sicrhau bod gan y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau fynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn ystod y pandemig.

Gellir gweld yr adroddiad llawn ar y camau dilynol i'r Ymchwiliad Craffu i Gydraddoldebau [yma](#)

5. Ymgynghori ac Ymgysylltu

Rydym yn parhau i gefnogi ein hymrwymiad i ymgynghori trwy gynnwys preswylwyr, rhanddeiliaid eraill a gweithwyr yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Rydym wedi diwygio ein dull o ymgynghori ac ymgysylltu ac wedi datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ddrafft 2020-23. Nod y strategaeth yw darparu fframwaith ar gyfer cwrdd â gofynion ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac mae'n darparu arweiniad a chyfarwyddyd ar pryd y dylai'r Cyngor ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, lefel yr ymgynghori a'r ymgysylltu sy'n ofynnol, egwyddorion i'w hystyried wrth gynnal ymgynghori ac ymgysylltu a defnyddio canlyniadau ymgynghori ac ymgysylltu. Dyluniwyd y strategaeth i gefnogi (nid disodli) prosesau ymgynghori ac ymgysylltu statudol a rheoliadol presennol, trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu hirsefydlog o fewn meysydd gwasanaeth, a threfniadau partneriaeth presennol. Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at yr angen i ddiweddarau'r strategaeth i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o ymateb y Cyngor i Covid-19. Disgwylir i'r strategaeth gael ei hystyried gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor a'r Bwrdd Cydraddoldeb Strategol a Chenedlaethau'r Dyfodol newydd, cyn ymgynghori'n ehangach a symud ymlaen i'r Cabinet.

Eleni, mae pobl wedi cael cyfle i roi eu barn ar ystod eang o faterion gan gynnwys Cyllideb y Cyngor, eu lefel gyffredinol o foddhad â gwasanaethau'r Cyngor, Siarter Newid Hinsawdd y Cyngor a datblygu strategaeth Seilwaith Gwyrdd y Cyngor ledled y Sir. Gwahoddwyd pobl hefyd i roi eu barn ar wahanol agweddau ar raglen Adfywio'r Cyngor yng nghanol y ddinas gan gynnwys datblygu Bae Copr, arena newydd canol y ddinas, cynigion ar gyfer Sgwâr y Castell ac ail-ddychmygu stryd y Gwynt Abertawe. Cynhaliwyd arolygon staff hefyd yn ystod pandemig Covid-19 i archwilio effaith gweithio gartref, i adolygu effeithiolrwydd cefnogaeth y Cyngor i hwyluso gweithio gartref ac i lywio datblygiad polisïau'r gweithlu yn y dyfodol wrth inni wella o'r pandemig.

Er nad yw llawer o'n gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb arfaethedig gyda'n Fforwm Cydraddoldebau, na gwaith gyda Phlant a Phobl Ifanc a gweithio gyda phobl hŷn wedi digwydd fel y cynlluniwyd, o ganlyniad i'r pandemig, rydym wedi parhau i ymgysylltu ar-lein pryd bynnag y bo modd, neu ddatblygu dulliau amgen.

5.1 Plant a Phobl Ifanc

Yn ystod pandemig Covid-19 ni fu'n bosibl cymryd rhan mewn grwpiau wyneb yn wyneb â Phlant a Phobl Ifanc trwy fecanweithiau fel y Sgwrs Fawr. Er 2014, mae'r Sgwrs Fawr wedi cynnig cyfleoedd i bron i 10,000 o blant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed ymgysylltu â chyfleoedd hygyrch ac ystyrion i gael eu clywed. Roedd y pandemig yn golygu bod yn rhaid meddwl am sut a ble rydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, yn yr amser newydd a digynsail hwn o weithio. Gan fyfyrion ar y dysgu o ymgysylltu yn ystod y pandemig, cynhaliwyd adolygiad ac ailgyfeirio'r tîm gyda chylch gwaith ar gyfer

cydgysylltu'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. Sefydlwyd ffocws wedi'i fireinio ar bartneriaeth, polisi yn seiliedig ar hawliau a chyfranogiad rhanddeiliaid a recriwtiwyd Swyddog Partneriaeth a Chynnwys Plant a Phobl Ifanc.

Eleni gwnaethom ddrafftio Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc (2021-2023), gan ymgorffori Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Dull Seiliedig ar Hawliau at Blant, sy'n ystyried gwaith ymgynghori blaenorol gyda phlant, pobl ifanc ac ymarferwyr. Y bwriad yw ymgynghori ar y Cynllun diwygiedig ym mis Mai 2021. Mae'r cynllun ar dudalen Cynllun Hawliau Plant wedi'i ddatblygu ac mae'n cyd-fynd â'r dull egwyddorol Ffordd lawn sy'n cael ei ymgorffori'n genedlaethol. Mae alinio â'r broses Genedlaethol yn golygu cyfle i ddarparu arweiniad clir, a meincnodau diriaethol i adrannau'r Cyngor ymgorffori dull cyngor cyfan a dangos tystiolaeth o'r canlyniadau.

Ar yr 20^{fed} o Dachwedd 2020 (Diwrnod Plant y Byd) gwnaethom ail-lansio Rhwydwaith Hawliau Plant Abertawe. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys dros 80 o sefydliadau, a'i nod yw hwyluso dull awdurdod cyfan o ymgorffori hawliau plant yng ngwaith y Sir, wedi'i rannu'n ddwy elfen; cyfranogiad a pholisi. Canolbwyntiodd y llinyn cyfranogiad ar gefnogi strwythurau i alluogi plant a phobl ifanc (0-25) i leisio'u barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, yn lleol ac yn genedlaethol, ac roedd y llinyn polisi yn canolbwyntio ar gefnogi datblygiad a gweithrediad Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc Abertawe a datblygu camau o fewn ei gynllun gweithredu; Mae gweithgor addysg hefyd wedi'i sefydlu i archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol o addysgu ac ymgorffori hawliau yn y cwricwlwm yn Abertawe. Mae'r gwaith wedi cynnwys archwilio dull Hawl y Mis, datblygu ymatebion i Coronafeirws a Fi, a sefydlu cynllun i gefnogi Cyngorwyr Her i ymgorffori'r UNCRC yn eu ffordd o feddwl wrth ddatblygu cwricwla newydd gydag ysgolion lleol.

5.2 Pobl hŷn

O ganlyniad i bandemig COVID-19, ail-drefnwyd y Fforwm Heneiddio'n Dda yn Rhwydwaith Gwybodaeth Heneiddio'n Dda ar-lein. Nod y Rhwydwaith oedd darparu gwybodaeth a chyfle parhaus i ymgysylltu. Er bod pandemig COVID-19 wedi newid y ffordd yr oeddem yn ymgysylltu â Phobl Hŷn, rydym wedi parhau i gefnogi ymgysylltiad Pobl Hŷn trwy banel ymgysylltu rhanbarthol gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn, ein gwasanaeth Cydlynu Ardal Leol, ein gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, ein Canolfan Galwadau (pwynt cyswllt ar gyfer ymatebion cymunedol yn ystod COVID-19), ein gwasanaeth Llyfrgell Electronig a'n gwasanaethau Cyflenwi Cartrefi.

Eleni rydym hefyd wedi ailsefydlu'r Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda ac wedi penodi Swyddog Partneriaeth a Chynnwys Pobl Hŷn i sicrhau bod gennym fecanweithiau cyfranogi effeithiol a chynhwysol ar waith i alluogi cyfranogiad ac ymgysylltiad dinasyddion 50+ oed. Bydd gan y Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda a'r Swyddog Cyfranogiad a Chynnwys Pobl Hŷn rôl allweddol i'w chwarae wrth lunio ein Strategaeth Cymdeithas sy'n Heneiddio yn unol â'r

argymhellion yn adroddiad "Gadael Neb ar Ôl" y Comisiynydd Pobl Hŷn (2021).

Mae cynllun ar dudalen (sy'n adlewyrchu'r Cynllun Hawliau Plant) wedi'i ddatblygu ar gyfer dinasyddion 50+ ac mae'n cyd-fynd â'r dull egwyddorol Ffordd lawn sy'n cael ei wreiddio'n genedlaethol a'i nodi yn strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer "Cymdeithas sy'n Heneiddio". Mae alinio â'r broses Genedlaethol yn golygu cyfle i ddarparu arweiniad clir, a meincnodau diriaethol i adrannau'r Cyngor ymgorffori dull cyngor cyfan a dangos tystiolaeth o'r canlyniadau yn ymwneud ag wyth parth meini prawf "Dinas sy'n Ystyrlon o Oed". Ym mis Tachwedd 2020, cyfarfu'r BGC â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac ymrwymodd yn ffurfiol i weithio tuag at statws "Dinas sy'n Ystyrlon o Oed" yn Abertawe. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn a CADR ym Mhrifysgol Abertawe i sicrhau mecanweithiau ystyrlon ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion 50+ yn y "Fforwm Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda". Yn debyg i waith ar ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc, rydym wedi myfyrio ar ein dysgu o ymgysylltu yn ystod y pandemig ac wedi mireinio ffocws ein gwaith ar bartneriaethau, polisi ar sail hawliau a chyfranogiad rhanddeiliaid.

5.3 Troseddau Casineb

